



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2008 Rhif 1890 (Cy.179)**

**2008 No. 1890 (W.179)**

**YR IAITH GYMRAEG**

**WELSH LANGUAGE**

Gorchymyn Cynlluniau Iaith  
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008

The Welsh Language Schemes  
(Public Bodies) Order 2008

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") caiff Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweinidogion Cymru bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Under Part II of the Welsh Language Act 1993 ("the Act") the Welsh Language Board may give notice in writing to any public body to produce a Welsh Language Scheme. Section 6 of the Act lists various public bodies for the purposes of Part II of the Act and provides that the Secretary of State (now the Welsh Ministers) may specify further public bodies for those purposes.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

This Order specifies further public bodies for the purposes of Part II of the Act.

Mae pum Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Five previous Orders have been made under section 6 of the Act:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (O.S. 1996/1898);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (S.I. 1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (O.S. 1999/1100);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1999 (S.I. 1999/1100);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (O.S. 2001/2550 (Cy.215));

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001 (S.I. 2001/2550 (W.215));

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 (O.S. 2002/1441 (Cy.145)); a

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2002 (S.I. 2002/1441 (W.145)); and

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 (O.S. 2004/71 (Cy.7)).

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2004 (S.I. 2004/71 (W.7)).

**2008 Rhif 1890 (Cy.179)**

**YR IAITH GYMRAEG**

**Gorchymyn Cynlluniau Iaith  
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008**

*Gwnaed* 16 Gorffennaf 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 17 Gorffennaf 2008

*Yn dod i rym* 11 Awst 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt(2) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008 a daw i rym ar 11 Awst 2008.

**Pennu Cyrff Cyhoeddus**

2. Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

*Rhodri Glyn Thomas*

Y Gweinidog dros Dreftadaeth, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2008

---

(1) 1993 (p.38).

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cyfeiriad at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

**2008 No. 1890 (W.179)**

**WELSH LANGUAGE**

**The Welsh Language Schemes  
(Public Bodies) Order 2008**

*Made* 16 July 2008

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 17 July 2008

*Coming into force* 11 August 2008

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 6(1) of the Welsh Language Act 1993(1) and now vested in them(2) hereby make the following Order:

**Title and commencement**

1. This Order is called the Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2008 and comes into force on 11 August 2008.

**Specification of Public Bodies**

2. The persons referred to in the Schedule to this Order are specified for the purposes of Part II of the Welsh Language Act 1993.

Minister for Heritage, one of the Welsh Ministers

16 July 2008

---

(1) 1993 (c.38).

(2) The functions of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), see the reference to the Welsh Language Act 1993 in Schedule 1. By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32) those functions are exercisable by the Welsh Ministers.

## YR ATODLEN

## THE SCHEDULE

*Erthygl 2**Article 2*

<i>Enw Cymraeg neu gyfieithiad o'r enw neu ddisgrifiad</i>	<i>English name or description</i>
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Auditor General for Wales
Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona	National Policing Improvement Agency
Awdurdod y Diwydiant Diogelwch	Security Industry Authority
Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd	Olympic Delivery Authority
Banc Lloegr	Bank of England
Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	Independent Police Complaints Commission
Y Comisiwn Cystadlu	Competition Commission
Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy	Sustainable Development Commission
Y Comisiwn Etholiadol	Electoral Commission
Y Comisiwn Hapchwarae	Gambling Commission
Comisiwn y Loteri Genedlaethol	National Lottery Commission
Cynghorau Sgiliau Sector	Sector Skills Councils
Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol	General Chiropractic Council
Cyngor Chwaraeon y DU	UK Sports Council
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Consumer Council for Water
Cyngor Llyfrau Cymru	Welsh Books Council
Y Cyngor Optegol Cyffredinol	General Optical Council
Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol	General Osteopathic Council
Y Cyngor Prydeinig	British Council
Cyngor Rheoleiddio Proffesiynolion Gofal Iechyd	Council for the Regulation of Health Care Professionals
Cyllid Cymru c.c.c.	Finance Wales p.l.c.
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr	Royal Pharmaceutical Society of Great Britain
FFORWM	FFORWM
Y Gronfa Loteri Fawr	Big Lottery Fund
Grŵp y Post Brenhinol c.c.c.	Royal Mail Group p.l.c.
Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau	National Endowment for Science, Technology and the Arts

Y Rheoleiddiwr Pensiynau  
Sefydliad Datblygu Cymunedol  
Y Swyddfa Gyfathrebiadau  
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru  
Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru  
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cyfyngedig  
Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Pensions Regulator  
Community Development Foundation  
Office of Communications  
Special Educational Needs Tribunal for Wales  
Local Government Data Unit - Wales  
The Energy Saving Trust Limited  
The Carbon Trust

© © Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W355/08/08

ON